4 Mawrth 2025

Annwyl

**ATISN 23233**

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 6 Ionawr. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

1. Copïau o unrhyw gytundebau neu ddogfennau cyfatebol ynglŷn â'r trefniant rhannu gofod swyddfa rhwng Comisiynydd y Gymraeg a'r Llywodraeth ers i Gomisiynydd y Gymraeg symud i swyddfeydd y Llywodraeth.

2. Sawl lle parcio sydd bellach wedi'u cyfyngu at ddefnydd Comisiynydd y Gymraeg a/neu ei staff yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays ers i swyddfa Comisiynydd y Gymraeg symud yno?

3. Pa system TGCh a chysylltiad gwe mae Comisiynydd y Gymraeg a'i swyddogion yn defnyddio i gysylltu o swyddfa'r Comisiynydd ym Mharc Cathays - ai system a chysylltiad gwe annibynnol o'r Llywodraeth neu yr un system a chysylltiad gwe?

4. Faint o arian mae Comisiynydd y Gymraeg wedi'i dalu mewn rhent i'r Llywodraeth ers symud i mewn i'w swyddfa newydd ym Mharc Cathays?

**<u>Ein Hymateb</u>**

Fe atebwyd cwestiynau 2, 3 a 4 uchod mewn gohebiaeth ar 4 Chwefror 2025. Yn yr ohebiaeth honno fe wnaethom eich hysbysu ein bod ni'n asesu dogfen prydles rhwng Gweinidogion Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg ac yn ystyried a ddylid atal y ddogfen, neu rannau o'r ddogfen, o dan yr eithriadau canlynol yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth:

- Adran 24: Diogelwch Cenedlaethol
- Adran 43: Buddiannau Masnachol

Amgaeaf gopi o'r wybodaeth yr ydym wedi penderfynu ei rhyddhau.

Rydym wedi penderfynu bod rhywfaint o'r wybodaeth o fewn y ddogfen yn esempt rhag y gofynion datgelu o dan adran 24 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac felly rhaid eu cadw'n ôl. Mae'r rhesymau dros weithredu'r esemptiad hwn wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad 1 y llythyr hwn.

Yn dilyn ein asesiad rydym wedi penderfynu peidio dal unrhyw wybodaeth yn ôl o dan adran 43 y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (Buddiannau Masnachol).

**Y camau nesaf**

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays

Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

**Atodiad 1**

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi'r hawl i unrhyw un ofyn i awdurdod cyhoeddus drefnu bod gwybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael i'r cyhoedd yn ehangach. Gan fod rhyddhau'r wybodaeth yn golygu ei bod ar gael i bawb, nid dim ond i'r sawl a wnaeth y cais, mae angen i awdurdodau cyhoeddus ystyried effeithiau'r cam gyhoeddi'r wybodaeth. Mae'r ystyriaethau ehangach hynny yn drech nag unrhyw fuddiant personol sydd gan y sawl sy'n gwneud y cais, o ran cael gweld yr wybodaeth.

Rydym wedi penderfynu cadw peth gwybodaeth yn ôl o'r ddogfen prydles rhwng Gweinidogion Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg sydd wedi'i atodi.

Mae'r Atodiad hwn yn amlinellu'r rhesymau dros weithredu adran 24 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a'n hystyriaeth ddilynol o Brawf Lles y Cyhoedd.

**Adran 24: Diogelwch Cenedlaethol**

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai peth gwybodaeth o'r ddogfen brydles gael ei heithrio rhag ei ddatgelu. Mae adran 24(1) yn datgan bod gwybodaeth wedi'i heithrio rhag cael ei ddatgelu lle mae "ei hangen at ddibenion diogelu diogelwch cenedlaethol". Mae peth gwybodaeth yn y ddogfen brydles sy'n ymwneud ag adeilad swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays wedi cael ei ddal yn ôl, gan ein bod wedi dod i'r casgliad y gallai rhyddhau gwybodaeth fanwl am swyddfa Parc Cathays gynorthwyo gwrthwynebwyr i ddatblygu cudd-wybodaeth a allai eu helpu i gynllunio gweithgarwch troseddol posibl rywbryd yn y dyfodol.

**Prawf Budd Cyhoeddus**

Er mwyn bodloni prawf budd y cyhoedd mewn perthynas â'r esemptiad, mae gofyn dod i'r casgliad bod y budd i'r cyhoedd o beidio â rhyddhau'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn gryfach na'r dadleuon o blaid rhyddhau'r wybodaeth.

**Dadleuon budd cyhoeddus o blaid rhyddhau'r wybodaeth**

- Y rhagdybiaeth gyffredinol o fod yn agored y mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn dyheu amdano.
- Byddai datgelu'r ddogfen les yn llawn yn rhoi dealltwriaeth lawn i'r cyhoedd o'r cytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, gan gynnwys sut mae presenoldeb y Comisiynydd yn yr adeilad wedi cael ei drefnu. Byddai datgelu'r les yn llawn yn mynd peth ffordd i sicrhau'r cyhoedd, er bod y Comisiynydd yn rhannu adeilad gyda Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, bod pob corff yn cadw eu hannibyniaeth.
- Gall datgelu'r ddogfen les yn llawn, gan gynnwys cynlluniau llawr y swyddfa, helpu'r cyhoedd i ddeall maint presenoldeb y Comisiynydd yn yr adeilad, gan gynnwys faint o aelodau staff sy'n defnyddio'r swyddfa.

**Dadleuon budd cyhoeddus o blaid peidio â rhyddhau'r wybodaeth**

- Gallai rhyddhau gwybodaeth fanwl am seilwaith swyddfa Parc Cathays gynorthwyo gwrthwynebwr i ddatblygu cudd-wybodaeth a allai eu helpu i gynllunio gweithgarwch troseddol posibl rywbryd yn y dyfodol.
- Mae'r lefel bygythiad presennol yn y DU a osodwyd gan y Gyd-ganolfan Derfysgaeth a'r Gwasanaeth Diogelwch (MI5) yn sylweddol. Mae "sylweddol" yn golygu bod ymosodiad terfysgol yn debygol. Mae adeiladau'r llywodraeth bob amser mewn perygl o fygythiadau

terfysgol a byddai darparu gwybodaeth benodol am adeilad Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays yn galluogi gwrthwynebwyr i gynllunio a gweithredu ymosodiad yn well.
- Caiff unrhyw ddatgeliad o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ei ryddhau i'r cyhoedd yn gyffredinol, felly byddai gwybodaeth am adeilad cyfan Llywodraeth Cymru ym Mharc Cathays (y tu hwnt i ardal y Comisiynydd) ar gael i bawb.

**Cydbwyso buddiannau'r cyhoedd**

Ar ôl ystyried y wybodaeth yn nogfen y brydles, ochr yn ochr â'r prawf budd cyhoeddus uchod, rydym wedi dod i'r casgliad y dylid atal rhai rhannau o'r ddogfen o dan adran 24 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac mae'r rhannau hynny wedi'u dal yn ôl.

Ni chadwyd unrhyw rannau yn ôl o dan adran 43 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (Buddiannau Masnachol).